

Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	19 Medi 2023
Aelod Arweiniol/ Swyddog	Y Cynghorydd Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd / Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi
Pennaeth Gwasanaeth	Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
Awdur yr adroddiad	Tîm Datblygu Economaidd a Busnes
Teitl	Ail Bleidlais Ardal Gwella Busnes (AGB) y Rhyl

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn sôn am bleidlais i benderfynu a fydd ail dymor ar gyfer Ardal Gwella Busnes (AGB) y Rhyl.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ynghylch y cynigion am ail dymor 5 mlynedd o hyd ar gyfer AGB y Rhyl, a hysbysu'r Aelodau am y camau sydd ynghlwm â chefnogi pleidlais i benderfynu a ddylid cael ail dymor ar gyfer AGB y Rhyl.

2.2. Mae angen penderfyniad ynghylch a oes unrhyw sail i roi feto ar y cynigion ar gyfer yr AGB, yn ogystal â sut y dylai Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) ddefnyddio ei bleidleisiau yn y bleidlais.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn nodi cynnwys Cynllun Busnes yr AGB (Atodiad I) ac yn cefnogi'r argymhelliad nad oes unrhyw sail i roi feto ar y cynigion o dan Ddeddfwriaeth AGB Cymru (2005) (gweler paragraffau 4.8 a 4.9).

- 3.2. Bod y Cabinet yn awdurdodi swyddogion i gyflawni unrhyw gytundebau cyfreithiol angenrheidiol ar gyfer gweithredu Ardoll yr AGB, trefniadau gwasanaeth a'r bleidlais ac unrhyw faterion angenrheidiol eraill ar gyfer yr AGB arfaethedig.
- 3.3. Bod y Cabinet yn cadarnhau sut bydd CSDd yn pleidleisio yn y Bleidlais AGB.
- 3.4. Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad II) fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Mae AGB yn rhoi'r pŵer i fusnesau wneud penderfyniadau ynghylch gwelliannau maent yn dymuno eu gwneud o fewn ardal ddaearyddol (mae'n rhaid i'r rhain fod yn ychwanegol i'r gwasanaethau a ddarperir eisoes gan yr awdurdod lleol) a chodi arian i'w darparu.
- 4.2. Mae'r broses o ddatblygu AGB yn cynnwys ymgynghoriad manwl â busnesau ar gyfer llunio cais AGB. Cynhelir pleidlais 28 diwrnod trwy'r post lle gall fusnesau bleidleisio 'o blaid' neu 'yn erbyn' y cynnig. Gall busnesau hefyd ymatal rhag pleidleisio.
- 4.3. Cyn y gellir sefydlu AGB am gyfnod o bum mlynedd, rhaid cyflawni dau amod: Mae'n rhaid i fwyafrif y pleidleiswyr bleidleisio 'o blaid' **ac** mae'n rhaid i'r sawl sy'n pleidleisio 'o blaid' gynrychioli mwy na 50% o gyfanswm gwerth trethiannol yr holl bleidleisiau a fwriwyd. Yna, bydd yr holl hereditamentau o fewn y ffin ddiffiniedig yn atebol am dalu'r ardoll, p'un a wnaethant bleidleisio "o blaid" neu "yn erbyn" yn y bleidlais.
- 4.4. Sefydlwyd AGB y Rhyl ym mis Tachwedd 2018, yn dilyn pleidlais lwyddiannus gyda mandad i weithredu am hyd at 5 mlynedd. Ar 25 Medi 2018,¹ penderfynodd y Cabinet gefnogi sefydlu'r AGB trwy bleidleisio 'o blaid' yn y bleidlais, mewn perthynas â'r holl hereditamentau trethiannol cymwys sydd gan CSDd yn yr AGB.
- 4.5. Mae Bwrdd AGB y Rhyl bellach yn ymgymryd â'r broses ar gyfer ail bleidlais i dalwyr yr ardoll ynglŷn ag ail dymor posibl, gyda chefnogaeth gan eu hymgyngorydd, Place Support Partnership. Mae Cynllun Busnes newydd wedi'i lunio ar gyfer yr ail dymor arfaethedig (Atodiad I).

¹ Dolen i gyfarfod y Cabinet: <http://mgintranet/ieListDocuments.aspx?CId=281&MId=5577&Ver=4&LLL=0>

- 4.6. Mae AGB y Rhyl yn cynnig 2% o ardoll ar 331 hereditament (ac eithrio cyfleusterau gofal iechyd) gyda gwerth trethiannol o dros £6,000 o fewn yr AGB. Yn seiliedig ar ardoll o 2%, y refeniw a amcangyfrifir ar gyfer yr AGB yw £167,500 y flwyddyn, sy'n golygu £837,500 dros 5 mlynedd.
- 4.7. Cynhigir bod y bleidlais yn dechrau ar 2 Tachwedd ac yn dod i ben ar 30 Tachwedd 2023.
- 4.8. Dylai'r awdurdod lleol ei fodloni ei hun nad oes sail i roi feto ar y cynnig ar gyfer yr AGB. Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Ardaloedd Gwella Busnes, *Deddfwriaeth AGB Cymru (2005)*, yn cynnwys darpariaethau i awdurdodau lleol roi feto ar gynigion ar gyfer yr AGB pan fyddant – (a) yn gwrthdaro i raddau perthnasol ag unrhyw bolisi corfforaethol gan y Cyngor, neu (b) yn gosod baich ariannol anghymesur sylweddol ar unrhyw unigolyn neu ddosbarth o unigolion.
- 4.9. Ar ôl adolygu'r cynigion ar gyfer yr AGB, mae'r swyddog yn argymhell nad oes yr un o'r darpariaethau hyn yn berthnasol yn achos cynigion ail bleidlais AGB y Rhyl.
- 4.10. Er bod yr AGB yn annibynnol, mae CSDd yn fudd-ddeiliad allweddol gyda swyddogaeth statudol o ran cynnal y bleidlais a chasglu a gorfodi'r ardoll.
- 4.11. Mewn unrhyw bleidlais ar gyfer AGB, bydd pleidlais gan bob sefydliad sydd â hereditament trethiannol cymwys yn yr AGB. Dyrennir 1 bleidlais ar gyfer pob hereditament trethiannol cymwys. Bydd CSDd felly'n gymwys i fwrw hyd at 20 pleidlais yn yr ail bleidlais, er mwyn penderfynu a ddylid parhau ag AGB y Rhyl am ail dymor 5 mlynedd o hyd.
- 4.12. Gall CSDd ddewis pleidleisio 'o blaid', 'yn erbyn' neu 'ymatal' ar gyfer pob un o'i hereditamentau trethiannol cymwys yn unigol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

- 5.1. Mae gwaith yr AGB yn cefnogi thema Sir Ddinbych Ffyniannus, i "gydweithio â chymunedau a phartneriaid i gyflawni prosiectau a mentrau a fydd yn ysgogi twf economaidd", trwy ddod â budd-ddeiliaid ynghyd a datblygu partneriaeth gynaliadwy yn ariannol i gefnogi gwelliannau yn y Rhyl.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Bydd gofyn i Wasanaethau Democrataidd y Cyngor reoli'r broses bleidleisio ffurfiol. Cynhelir pleidlais trwy'r post i dalwyr ardoll gan Wasanaethau Etholiadol Civica ar ran y Swyddog Canlyniadau. Mae'r Ddeddfwriaeth yn mynnu bod angen i CSDd dalu'r costau hyn.
- 6.2. Yn ôl deddfwriaeth, mae'n ofynnol i CSDd gasglu'r ardoll ar ran Cwmni'r AGB, a bydd y gost yn cael ei thalu gan yr AGB a'i llywodraethu gan Gytundeb Gweithredu.
- 6.3. Os cytunir ar dymor newydd, bydd CSDd yn gyfrifol am dalu Ardoll AGB ar ei hereditamentau yn yr AGB. Yn seiliedig ar ardoll o 2%, amcangyfrifir mai cost yr ardoll i CSDd fyddai £9,341 y flwyddyn.
- 6.4. Mae'n ofynnol i CSDd gwblhau gwaelodlin datganiadau gwasanaeth, gan nodi'r lefelau presennol o ddarpariaeth yn yr AGB. Bydd y rhain yn pennu ymrwymïadau presennol y Cyngor yn yr AGB, gan sicrhau nad oes unrhyw ddyblygiad o ran gweithgareddau yng nghronfeydd yr AGB.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

- 7.1. Byddai'n cyd-fynd yn gadarnhaol â'r nodau lles pe bai'r bleidlais ddemocrataidd o'i blaid, gan olygu system ymgynghorol wedi'i hariannu'n llawn, a fyddai o fudd i'r gymuned a'r amgylchedd o ran cyfranogiad a chynnwys pob aelod (Atodiad II).

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1. Trafodwyd y cynnig am ail dymor ar gyfer AGB y Rhyl yn y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar 6 Gorffennaf 2023 a Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl ar 24 Gorffennaf 2023. Roedd Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl yn argymhell i'r Cabinet na ddylai CSDd arfer

ei hawl i bleidleisio yn rownd nesaf yr AGB, gan ganiatáu i fusnesau eraill benderfynu oherwydd yr hinsawdd economaidd anodd.²³

- 8.2. Mae Swyddogion Llywodraeth Cymru wedi nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater hwn ac maent wedi gofyn i hyn gael ei ystyried gan y Cabinet. Mae'r datganiad llawn ar eu safbwynt ynghlwm yn Atodiad III, ond mae'n amlwg bod LIC yn gefnogol i'r Ardaloedd Gwella Busnes a'u bod felly o'r farn y dylai CSDd gefnogi'r cynnig am ail dymor.
- 8.3. Yn benodol, dywed LIC: *“Os bydd yr AGB yn methu yn y bleidlais am dymor arall, ni fydd gweithgareddau hanfodol bwysig i godi proffil y Rhyl, na chymorth i fusnesau a phrosiectau arfaethedig tebyg yn parhau”* ac *“nid oes amheuaeth y gallai'r AGB chwarae rôl gadarnhaol o ran strategaeth adfywio'r dref, gyda chefnogaeth ein trefniadau partneriaeth cadarn”*.
- 8.4. Mae AGB y Rhyl yn gyfrifol am ymgynghori â'r busnesau a'r budd-ddeiliaid a effeithir gan y cynnig am ail dymor ar gyfer yr AGB.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1. Fel sydd i'w weld yn yr adroddiad, byddai costau ychwanegol i'r Cyngor pe bai'r AGB yn cael ei chymeradwyo. Bydd angen cynnwys pwysau ychwanegol bychan yn y broses bresennol o osod y gyllideb, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ariannu.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1. Nid oes unrhyw risgiau amlwg neu sylweddol i'r Cyngor mewn perthynas â'r penderfyniad hwn.

² Dolen i gyfarfod y Pwyllgor Craffu:

<http://mgintranet/ieListDocuments.aspx?CId=268&MId=6727&Ver=4&LLL=0>

³ Dolen i gyfarfod Grŵp Ardal yr Aelodau

<http://mgintranet/ieListDocuments.aspx?CId=523&MId=6713&Ver=4&LLL=0>

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 2, Deddf Llywodraeth Leol 2000. Y pŵer i ymgymryd â gweithgareddau i hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol yr ardal.